

PWYLLGOR CYDWEITHREDOL
RHANBARTHOL
GOGLEDD CYMRU

Adolygiad Blynyddol 2018-19



Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd	2
Cyflwyniad.....	3
Astudiaeth Achos PCRh.....	4
Astudiaeth Achos 2	7
Pa newidiadau sydd wedi deillio o’u hymgysylltiad a sut y cafodd hyn ei fwydo’n ôl iddyn nhw?.....	8
Sut mae penderfyniadau wedi cael eu siapio gan y cynllun gwariant, y dadansoddiad o anghenion, deilliannau a ffynhonellau eraill o ddata? Pa newidiadau sydd wedi deillio o hyn?	10
Pa waith Rhanbarthol ac Is ranbarthol (ar gyfer PCRh gyda mwy nag un awdurdod lleol) a gomisiynir a sut y mae gwasanaethau wedi gwella ers yr Adroddiad Adolygu Blynyddol diwethaf?	12
Sut allwch chi ddangos bod ymyrraeth gynharach a dull mwy ataliol o ymdrin â digartrefedd yn cael eu darparu? Sut y mae hyn yn cael sylw ar sail ranbarthol?	13
Pa gysylltiadau sydd gan PRCh gyda’r Gwasanaetha Cymdeithasol a’r Gwasanaethau Iechyd yn y rhanbarth? A gomisiynwyd unrhyw wasanaethau ar y cyd neu a gyfunwyd unrhyw adnoddau? Os do, rhowch fanylion y prosiect(au).	14
Pa gysylltiadau a wnaed gyda grwpiau strategol/cynllunio rhanbarthol a pha waith cyd-gomisiynu a wnaed gyda phartheriaid/rhaglenni allweddol eraill?.....	16
Sut mae’r PCRh wedi hysbysu/cyfrannu at yr ymgysylltiad rhanddeiliad ar gyfer datblygu’r Grant Cymorth Tai?.....	17
Gwerthusiad/Adborth Aelodau’r PCRh.....	19
Beth oedd gan Aelodau PCRh Gogledd Cymru i’w ddweud a y PCRh?.....	19
Beth y bydd angen ei symud ymlaen dros y flwyddyn i ddod?.....	19
Cadw Tŷ y PCRh.....	20
Beth sydd nesaf ar gyfer y PCRh?	20

Rhagair y Cadeirydd

Mae hi wedi bod yn bleser cymryd y rôl o gadeirio BCRh Gogledd Cymru eleni. Rwy'n falch o'r ymrwymiad a'r angerdd y mae'r aelodau wedi'i ddangos tuag at y rhaglen, a'r ffordd y mae'r Pwyllgor wedi croesawu syniadau a heriau newydd.

Mae'r adroddiad yn dangos y cynnydd cyson sy'n cael ei wneud yng Ngogledd Cymru ac mae'n braf gweld bod aelodau unigolyn teimlo bod y grŵp wedi bod yn effeithiol. Mae'n amlwg bod y bartneriaeth rhwng Cefnogi Pobl a rhaglenni eraill yn cryfhau a bod cyfraniad Cefnogi Pobl o ran lleihau'r galw ar y gwasanaethau statudol yn cael ei gydnabod. Bydd hyn yn bwysig wrth i ni wynebu'r newid a gyflwynwyd yn sgil y trawsnewid o Gefnogi Pobl i'r Grant Cymorth Tai.

Mae safbwyntiau ein defnyddwyr gwasanaeth yn dal yn bwysig o ran siapio ein gwasanaethau. Mae cyflwyniad yr holiadur ar-lein yn gyfle parhaus i ddefnyddwyr gwasanaethau ddweud wrthym sut yr ydym yn gwneud, pa wahaniaeth yr ydym yn ei wneud i'w bywydau a sut y gallwn wneud mwy fyth i wella gwasanaethau.

Mae'r PCRh wedi rhoi croeso cynnes i'r cynrychiolydd Digartrefedd a wahoddwyd i ymuno a'r Pwyllgor er mwyn paratoi ar gyfer y Grant Cymorth Tai, ac mae aelodau wedi cymryd rôl weithredol mewn digwyddiadau ymgynghori er mwyn siapio trefniadau ar gyfer rhoi'r grant newydd ar waith. Mae'r comisiynu rhanbarthol am wasanaethau camdriniaeth ddomestig a phobl sy'n gadael y carchar yn awr yn dwyn ffrwyth gyda gwasanaethau mwy cyson ar gael ar draws Gogledd Cymru.

Dros y flwyddyn i ddod mae'n rhaid i ni adeiladu ar ein gwaith a chanolbwyntio ar gyflwyno'r drefn newydd o lywodraethu a grëwyd ar gyfer y Grant Cymorth Tai. Mae'n rhaid i ni hefyd ddal at i ddangos sut y mae'r grant yn gwednewid bywydau, yn cynnal annibyniaeth pobl ac yn atal digartrefedd. Mae'r astudiaethau achos sydd wedi'u cynnwys yn amlygu'r rôl bwysig y mae gwasanaethau'n eu chwarae o ran gwella bywydau pobl.

Rwy'n gobeithio y gall y PCRh barhau i chwarae rôl bwysig a darparu enghraifft dda o gomisiynu a llywodraethu rhanbarthol. Mae'n bwysig bod y neges am werth gwasanaethau hefyd yn amlygu peryglon unrhyw ostyngiad mewn cyllido gwasanaethau o ran digartrefedd a'r agenda Taclo Tlodi.

Hoffwn ddiolch i'r aelodau am eu cefnogaeth barhaus ac edrychaf ymlaen at barhau i weithio gyda nhw ar y prosiectau pwysig sydd wedi dechrau yn yr hyn a fydd rwy'n tybio yn flwyddyn heriol arall.

Enid Roberts

Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cwsmeriaid a Chymunedau, Cartrefi Cymunedol Gwynedd

Cadeirydd Bwrdd Cydweithredol rhanbarthol Gogledd Cymru.

Linell Amser y Grant Cymorth Tai

Yn 2018-19 profwyd trefniant grant newydd gyda 7 awdurdod lleol o'r enw 'Cynllun Braenaru Cyllid Hyblyg'

Roedd gan gynlluniau braenaru 100% o hyblygrwydd ar draws 10 rhaglen gyllido (gyda chafeat bod Cefnogi Pobl yn cael ei ddiogelu tan 2019-20)

Y deng rhaglen gyllido a enwyd yn 'Grant Ehangach' yw:

1. **Cefnogi Pobl**
2. Dechrau'n Deg
3. Teuluoedd yn Gyntaf
4. Cronfa Treftadaeth
5. Hyrwyddo Ymgysylltiad Cadarnhaol ar gyfer Pobl Ifanc
6. Gofal Plant a Chwarae (Gofal y Tu Allan i'r Ysgol gynt)
7. **Atal Digartrefedd**
8. **Gorfodaeth Rhentu Doeth Cymru**
9. Cronfa Dydd Gwyl Dewi
10. Cymunedau dros Waith a Mwy

Cyhoeddiad Gweinidogol ar 3 Hydref 2018 - dau grant ar wahan o Ebrill 2019 :

- Grant Plant a Chymunedau
- Grant Cymorth Tai

Mae'r Grant Cymorth Tai yn cynnwys y 3 rhaglen a amlygwyd: Cefnogi Pobl, Atal Digartrefedd a Rhentu Doeth Cymru.

Daeth y 7 oedd yn weddill yn Grant Plant a Chymunedau.

- Rhagfyr 2018 – cyfarfod cyntaf y Grŵp Llywio Grant Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru .
- Chwefror 2019 Digwyddiad Ymgysylltu Gogledd Cymru
- Mehefin 2019 Digwyddiad Ymgysylltu Cymru Gyfan

Disgwylir y bydd arweiniad drafft ar gael yn yr hydref 2019.

Cyflwyniad

Mae'r adolygiad hwn o'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol (PCRh) yn ymwneud â'r cyfnod Mawrth 2018 – Ebrill 2019. Yn ystod y cyfnod hwn mae'r PCRh wedi parhau i gyfarfod ar sail chwarterol ac mae'r geiriau 'Cyllid Hyblyg / Grantiau Ehangach / Cynlluniau Braenaru.

Yn 2018 penderfynodd Llywodraeth Cymru gydgrynhoi deng grant i ffurfio 'Grant Ehangach' (Super Grant) fel y'i gelwid bryd hynny. Roedd y grant hwn yn cynnwys y deng grant ymyrraeth gynnar ac atal a restrir ar y dde, a'r prif nod o'u cydgrynhoi oedd galluogi awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau mewn dull mwy cydweithredol ac integredig gan roi mwy o hyblygrwydd i ddarparu gwasanaethau heb i fecanweithiau'r grantiau fod yn rhwystr.

Yn ychwanegol at y 'Grant Ehangach' roedd gennym hefyd y cynlluniau Braenaru – gyda'r unig un yng Ngogledd Cymru yng Nghonwy. Roedd Conwy yn cyflwyno diweddariadau rheolaidd yn y PCRh ac wedu recriwtio Rheolwr Hyblygrwydd Cyllido

Fis Hydref 2018 cyhoeddodd y Gweinidog ymdriniaeth dau grant: bydd cyllid Cefnogi Pobl, Atal Digartrefedd a Rhentu Doeth Cymru yn cael eu cyfuno'n un grant, sef y Grant Cymorth Tai (GCT) a'r saith grant sy'n weddill yn cael eu cyfuno'n Grant Plant a Chymunedau.

Mae'r PCRh wedi ymrwymo o hyd i ddatblygiad y Grant Cymorth Tai ac mae swyddogion arweiniol digartrefedd wedi eu cyfethol i'r Pwyllgor er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein blaenoriaethau cysylltiedig a'r grant gyda'r holl bartneriaid.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd ymgynghori'n digwydd ar Ailddosbarthu. Mae'r cyhoeddiad hwn wedi peri cryn bryder yng Ngogledd Cymru. Mae ailddosbarthu yn golygu ei bod yn debygol iawn y bydd cyllid Gogledd Cymru yn cael ei gwtogi ac y bydd hynny'n tansilio gwasanaethau, yn effeithio ar gartrefi bregus ac y bydda toriadau i wasanaethau rheng flaen yn anorfod.

Byddai diweithdra'n codi ar draws Gogledd Cymru a byddai risg cronus lle bo gan ddarparwr sawl cynllun ar draws awdurdodau yn y rhanbarth. Er enghraifft mae un darparwr wedi dweud pe baent yn colli eu harian Cefnogi Pobl y byddai'r costau diswyddo cysylltiedig â datgomisiynu'r gwasanaeth dros £98k gyda cholled 13 o swyddi. Dim ond un darparwr yw hyn.

Mae PCRh wedi bod yn ymrwymedig iawn i'r agenda ac wedi ysgrifennu at Karl Thomas sy'n arwain ar y gwaith hwn yn

Llywodraeth Cymru. Mae'r PCRh wedi amlinellu eu pryderon a'r effaith niweidiol y bydd hyn yn ei gael ar wasanaethau Cefnogi Pobl yng Ngogledd Cymru.

Yng ngoleuni datblygiadau'r deuddeng mis diwethaf a'r newidiadau fydd yn digwydd i'r PCRh o dan y grant newydd, mae'r Pwyllgor wedi gwneud ei orau i hysbysu'r rhanbarth yn strategol ynghylch darpariaeth y rhaglen Cefnogi Pobl ac i gydweithio'n rhanbarthol. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi cryfhau ein cysylltiadau gyda'r Bwrdd Trais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV), wedi cyd-gomisiynu gwasanaeth Ymgynghorydd Trais Domestig Annibynnol rhanbarthol ac wedi rhannol ariannu'r ymgyrch Gwella Diogelwch gyda'r Bwrdd hwn, a fydd yn cychwyn yn yr hydref 2019. Mae ein PCRh ni yn parhau i chwilio am gyfleoedd i weithio'n rhanbarthol ac wedi ymdrechu'n ddiweddar i weithio'n agos ar y camau gweithredu sydd wedi'u nodi yn y Strategaeth Digartrefedd Rhanbarthol, gyda grwp Gogledd Cymru'n arwain ar hyn yn wreiddiol. Gan bod swyddogion arweiniol digartrefedd yn aelodau o'r PCRh trafodwyd ai'r PCRh yw'r lle gorau i adrodd ar y Strategaeth Digartrefedd Rhanbarthol.

O'n Cynllun Strategol Rhanbarthol ar gyfer 2017-20 mae canlyniadau rhagorol ar gyfer Gogledd Cymru wedi deillio, yn enwedig gyda phenodiad tri Swyddog Adsefydlu Carcharorion, a oedd yn un o ddeilliannau ymchwil a gomisiynwyd gan y PCRh yn 2016 i weld sut y gellid gwella darpariaeth ar gyfer pobl sy'n gadael y carchar.

Erbyn hyn mae gan y PCRh ei holiadur ar-lein ei hun ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth Cefnogi Pobl er mwyn iddynt allu rhoi adborth ac mae'r dadansoddiad o'r ymatebion hyd yma yn dangos yn gwbl glir pa mor bwysig yw'r rhaglen Cefnogi Pobl a'r effaith gadarnhaol y mae'r rhaglen yn ei chael ar fywydau pobl.

Yn 2019-20 bydd y PCRh yn parhau i ddarparu'r blaenoriaethau a amlinellir yn ei gynllun ac unwaith y bydd gan y pwyllgor wybodaeth fanylach am yr ymgynghoriad ar y Grant Cefnogi Pobl, bydd yr arweiniad yn cynnig bod y PCRh yn dod yn is-grwp i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Gall y PCRh ganolbwyntio ar sicrhau y gwneir cysylltiadau gyda'r BPRh a phartneriaid rhanbarthol eraill er mwyn sicrhau darpariaeth effeithiol y Grant Cefnogi Pobl.

Astudiaeth Achos PCRh

Ymgysylltiad Defnyddiwr Gwasanaeth

Yn 2018 gweithiodd is-grŵp y PCRh ar ddatblygu Holiadur Ar-lein ar gyfer pobl yng Ngogledd Cymru sydd wedi derbyn y gwasanaeth Cefnogi Pobl. Roedd hwn yn seiliedig ar arfer gorau o holiadur ar-lein Ynys Môn. Aeth yr holiadur yn fyw ym mis Rhagfyr 2018 ac yn ystod y mis cyntaf cafwyd ymatebion gan 140 o bobl ar y gwasanaeth yr oeddent wedi'i dderbyn.

Byddai 97% o'r rhai hynny a lenwodd yr holiadur yn argymhell y gwasanaeth a gawsant

Nod y dasg hon oedd sicrhau bod llais defnyddwyr gwasanaethau'n cael ei glywed. Roedd y dadansoddiad cyntaf yn ymwneud â Rhagfyr 2018 yn dangos yr angen i gynnwys y cwestiwn 'Pwy ydi'r Darparwr' gan fod cymaint o bobl oedd yn llenwi'r ffurflen yn defnyddio'r lle 'unrhyw sylwadau eraill' i

enwi'r gwasanaeth a'r gweithwyr cefnogi ac i fynegi eu diolch iddynt. Mae hyn hefyd yn golygu, drwy gynnwys enw'r Darparwr, y gellir trosglwyddo unrhyw adborth negyddol i'r Awdurdodau Perthnasol i weithredu arno, ond yn bwysicach, y gellir rhannu arfer da ar draws Gogledd Cymru a'r darparwr. Mae'n braf gallu adrodd bod y sylwadau hyd yma yn galonogol iawn i'w darllen.

Mae'r holiadur yn ar gael o hyd ac yn cael ei gynnal gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae'r Cydlynnydd Datblygu Rhanbarthol yn monitro'r ymatebion ac yn cynhyrchu dadansoddiad ar gyfer y PCRh. Mae'r dadansoddiadau wedi bod yn gadarnhaol ac yn cael eu defnyddio i hyrwyddo a dangos y gwaith y mae Cefnogi Pobl yn ei wneud ar draws Gogledd Cymru.

Mae'r Canllaw ar Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl yn nodi y dylai pob PCRh fod â fframwaith i gynnwys defnyddwyr gwasanaeth, a gofynnem felly: 'A ddylai'r PCRh gynnal digwyddiad defnyddwyr gwasanaeth?' er mwyn mesur faint o ddiddordeb a fyddai mewn digwyddiad o'r fath. Fel yr oeddem yn ei ddisgwyl dywedodd y mwyafrif na fyddai ganddynt ddiddordeb gan nodi'r rhesymau yr oeddem wedi eu rhagweld, megis teimlo'n rhy bryderus i roi adborth mewn lle mawr/o flaen cynulleidfawr. Fodd bynnag roedd gan tua 30% ddiddordeb mewn mynychu digwyddiad. Mae'r Cynrychiolwyr Darparwyr ar y PCRh wedi cytuno i gynnal grwpiau ffocws er mwyn cael rhagor o adborth ar y gwasanaeth a dderbyniwyd a bydd y PCRh yn dal i fonitro ymatebion i'r cwestiwn hwn.

Gofynnem 'lle fyddech chi oni bai am y gwasanaeth hwn'. Yr atebion oedd:

15 o'r 102 a atebodd yn dweud y byddent wedi **marw**,

8 yn dweud y byddent yn y **carchar**,

39 yn dweud y byddent yn dal i fod yn **ddigartref** neu **ar y stryd**

10 yn cysgu ar soffas pobl eraill

4 yn dal mewn llety Gwely a Brecwast.

Mae'r ffigyrau a'r datganiadau moel sydd wedi deillio o'r darn hwn o waith yn ei wneud yn un o'r pwysicaf hyd yma i'r PCRh ac mae'r dadansoddiad o'r deilliannau a'r effaith y mae'r rhaglen wedi'i gael yn siarad drostyn eu hunain.

Mae'r PCRh wedi gofyn bod y dadansoddiad yn cael ei rannu gyda'r Gweinidog fel atodiad i'r papur am Ailddosbarthu a anfonwyd gan y Pwyllgor. Fel y nodwyd yn flaenorol os bydd y cynnig i ailddosbarthu'r grantiau yn mynd yn ei flaen, bydd yn rhaid i Ogledd Cymru gau rhai o'i wasanaethau a bydd effaith domino hyn ar wasanaethau eraill yn hynod niweidiol. Mae'r dudalen ganlynol yn amlinellu'r atebion a roddwyd dro ar ôl tro pan ofynnwyd y cwestiwn 'lle fyddech chi heb y gwasanaeth hwn', sydd unwaith eto yn dystiolaeth o effaith a gwaith da y darparwyr yng Ngogledd Cymru.

“Lle fyddech chi heb y gwasanaeth hwn?”

“Yn ôl ar y stryd, yn ôl yn y carchar, neu wedi marw”	“Oer ac unig”	“Yfed yn drwm ac yn ynysu fy hun”	“Digartref”
“Yn gaeth i gyffuriau/alcohol neu wedi marw”	“Doedd gen i ddim llety na chartref, dim ond ystafell mewn gwesty”	“Dwi ddim yn gwybod, roedd pethau wedi mynd yn ddrwg iawn gartref”	“Buaswn yn ddigartref ac yn dal i dderbyn y gamdriniaeth ges i yn fy mherthynas flaenorol”
“Buaswn yn ddigartref, yn ddiymgeledd neu o bosib wedi marw”	“Buaswn yn cysgu ar soffas pobl ac ni fuaswn yn teimlo’n ddiogel nac yn cael fy nghefnogi”	“Mi fuaswn yn cymryd cyffuriau ac yn yfed”	“Buaswn wedi cael fy lladd gan fy nghynbartner neu yn byw bywyd trist llawn trais domestig”
“Buaswn dal wedi gwahanu oddi wrth fy nheulu ac o bosibl yn ddigartref, neu fel arall wedi marw”	“Buaswn yn dal yn y lle Gwely a Brechwast”	“Dal mewn pabell”	“Buaswn wedi colli fy nghartref a ddim eisiau bod yn fyw”
“Ar ôl salwch meddyliol a symud i ardal newydd ar sail iechyd.... ar y gwaethaf wedi marw, ar y gorau, digartref”	“Ar ben fy hun ac yn cael trafferth ymdopi”	“Mi fuaswn i gartref ac yn anhapus iawn”	“Mi fuaswn wedi marw”
“Yn y carchar”	“Mewn twll dwfn tywyll heb fawr obaith ar gyfer y dyfodol. Doedd gen i ddim hyder ac yn teimlo nad oedd bywyd yn werth ei fyw”	“Buaswn yn dal yn symud gysgu ar sofffa un ffrind i sofffa’r llall”	“Yn sownd mewn cylch o iselder”

Bydd y PCRh yn parhau â’r holiadur ar-lein oherwydd er ei fod yn dal yn rhywbeth newydd iawn, mae’r dadansoddiadau y mae’n eu cynhyrchu yn bwysig o ran hyrwyddo gwaith Cefnogi Pobl.

Astudiaeth Achos 2

Gwaith Rhanbarthol dan gyfarwyddyd y PCRh

Comisiynwyd Caroline Humphreys a Tamsin Stirling gan Bwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Cefnogi Pobl Gogledd Cymru i wneud ymchwil i'r gwasanaethau cefnogi a ddarperir ar gyfer pobl o chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru sy'n gadael y carchar. Roedd y fanyleb ar gyfer yr ymchwil dan gyfarwyddyd y PCRh yn dynodi'r meysydd canlynol ar gyfer ymchwil:

Darpariaeth a natur y gwasanaethau cefnogi a ddefnyddir gan bobl sy'n gadael carchar, unrhyw ddyblygiad mewn darpariaeth ac effeithiolrwydd y gwasanaethau

- **Nifer y bobl sy'n gadael y carchar sy'n cael mynediad i wasanaethau cefnogi, a nifer y bobl sy'n gadael y carchar ar drwydded ac i ardaloedd pa awdurdodau lleol fyddan nhw'n dychwelyd**
- **Profiadau a safbwyntiau defnyddwyr gwasanaeth**
- **Gweithdrefnau rhannu gwybodaeth pan fydd rhywun yn gadael y carchar**
- **Yr effaith y mae dileu'r cyllid trosiannol wedi ei gael, gan gynnwys ar swyddi Swyddogion Ailsefydlu Carcharorion awdurdodau lleol a sut y gellir ariannu'r rhain yn y dyfodol**
- **Modelau arfer da ac arloesol o gefnogi pobl sy'n dod allan o'r carchar ar draws y DU**
- **Ystyried sut y gellir datblygu gwasanaethau cefnogi yng Ngogledd Cymru yn y dyfodol**

Yn haf 2017 cyflwynwyd yr adroddiad terfynol i'r PCRh. Drwy gydol 2018 canolbwyntiodd y Pwyllgor a'i Is-grŵp ar yr argymhellion yn yr adroddiad gan ganolbwyntio ar y Swyddogion Ailsefydlu.

Bryd hynny yn 2017, roedd gan Gwynedd ac Ynys Môn un Swyddog Ailsefydlu Carcharorion yr un ac roedd Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam yn rhannu Swyddog. Roedd yr ymchwil yn dangos bod rhesymeg glir dros y rolau hyn oherwydd bod ganddynt wybodaeth fanwl am yr amrywiaeth o opsiynau tai a chefnogaeth sydd ar gael – gwybodaeth nad yw o reidrwydd ym meddiant staff y sefydliadau eraill, yn ogystal â chysylltiadau gyda landlordiaid a darparwyr. Mae'r swyddi ailsefydlu o fewn yr awdurdodau lleol felly'n chwarae rôl hollbwysig o ran sicrhau bod y wybodaeth hon yn cael ei hystyried ac maent hefyd yn bont rhwng y carchar a'r llety a drefnir ar gyfer y sawl sy'n gadael y carchar, boed yn llety dros do neu barhaol.

Gall deiliaid y swyddi hyn sicrhau y caiff pobl yn y carchar wybodaeth am opsiynau tai sy'n benodol berthnasol iddyn nhw cyn iddynt adael y carchar (h.y. yng ngoleuni eu hanghenion cefnogi penodol nhw eu hunain, lefel y risg sy'n gysylltiedig â nhw, yn lle fydden nhw'n hoffi/ddim yn hoffi byw ac ati). Mae hyn yn gofyn eu bod yn gallu cyfathrebu'n uniongyrchol â phobl yn y carchar o fewn y cyfnod adsefydlu unwaith y ceir atgyfeiriad gan y Rheolwr Troseddwyr yn y gymuned.

Yn dilyn y darn hwn o waith aeth Conwy, Sir Ddinbych, y Fflint a Wrecsam ymlaen i recriwtio Swyddog Ailsefydlu Carcharorion. Roedd awdurdodau lleol Gogledd Cymru a sawl asiantaeth allanol wedi cydnabod bod y swydd ailsefydlu yn Ynys Môn yn effeithiol. Erbyn mis Ionawr 2019 roedd pob awdurdod lleol wedi penodi Swyddog Ailsefydlu Carcharorion, ac er nad yw pob un o'r swyddi hyn wedi'u hariannu drwy'r grant Cefnogi Pobl a bod rhai wedi eu lleoli o fewn y Tîm Opsiynau Tai ac eraill

o fewn y Timau Cefnogi Pobl, roedd y darn hwn o waith yn dangos parodrwydd ac ymrwymiad pob awdurdod i recriwtio i'r swydd hon.

Yn ddiweddar gwahoddodd y CPRh yr holl Swyddogion Ailsefydlu Carcharorion i'r cyfarfod nesaf o'r is-grŵp er mwyn rhoi sylw i'r argymhellion sy'n weddill yn yr adroddiad a'u trafod yn uniongyrchol gyda'r swyddogion sy'n gwneud y gwaith ar lawr gwlad. Mae'r CPRh hefyd wedi meithrin cysylltiadau gyda Chydlynedd Llety'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ar gyfer Gogledd Cymru a fydd yn ymuno â ni yn y cyfarfod hwn a hefyd wedi sicrhau ymrwymiad parhaus Cynrychiolydd y Cwmni Ailsefydlu Cymunedol ar y Pwyllgor.

Mae'r Awdurdodau wedi rhoi manylion am effaith y swydd hon:

Sut y cafodd pobl sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth eu cynnwys a sut y gwnaethant helpu i siapio gwasanaethau?

Pa newidiadau sydd wedi deillio o'u hymgysylltiad a sut y cafodd hyn ei fwydo'n ôl iddyn nhw?


Mae'r PCRh wedi cyflwyno holiadur ar-lein Gogledd Cymru ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth er mwyn iddynt roi adborth am y gwasanaeth y maent wedi'i dderbyn. Mae'r holiadur hwn yn efelychu'r arfer da yn Ynys Môn, sydd â holiadur ar-lein ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth a ddefnyddir i hysbysu penderfyniadau comisiynau ac sy'n caniatáu i ddefnyddwyr gwasanaeth ddweud beth maen nhw'n ei

- Llai o alw am lety gwely a brechwast a llai o bobl yn cysgu allan
- Ceisiadau digartrefedd a thai'n cael eu derbyn gan Opsiynau Tai.
- Osgoi straen a gorbryder cyn rhyddhau gan y bydd pobl yn gwybod i le maen nhw'n mynd
- Perthnasoedd gwaith gwell a mwy cadarnhaol gyda'r cleient
- Y cleient yn fwy tebygol o ail-feithrin perthnasoedd gyda'u teulu a'u plant os darperir llety
- Llai o straen oherwydd y bydd Cynllun Tai Personol wedi'i sefydlu ac wedi cael gwybodaeth lawn am ddyletswyddau'r Awdurdod Lleol cyn rhyddhau.

hoffi neu ddim yn ei hoffi am y gwasanaeth maen nhw'n ei dderbyn.

Mae'r PCRh wedi gwneud dadansoddiad ar y chwarter cyntaf ac mae'r ymatebion wedi bod yn hynod o gadarnhaol. Mae'r holiadur ar gael ar-lein o hyd a bydd dadansoddiad pellach yn cael ei wneud ym mis Medi 2019. Fel y soniwyd eisoes mae'r Darparwyr ar y PCRh wedi cytuno i gynnal grwpiau ffocws

gyda defnyddwyr gwasanaeth i gael rhagor o adborth yn arbennig am y cwestiwn “a ddylai’r PCRh gynnal digwyddiad ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth? Fyddai gennych chi ddiddordeb mewn mynychu?”



Mae Awdurdodau Lleol yn parhau i roi diweddariadau yn y PCRh ar ymgysylltiad defnyddwyr gwasanaeth ac fel y nodir isod yn parhau i gynnwys defnyddwyr gwasanaethau mewn siapio penderfyniadau.

Mae gan Ynys Môn Ddefnyddwyr Gwasanaeth dynodedig sy’n eistedd ar y Panelau Gwerthuso Tendrau, a ddefnyddiwyd yn 2017/18 ar gyfer gwerthuso Gwasanaeth Pobl Ifanc Fregus a Phobl Sengl ag Anghenion Cefnogi (25-54 oed) y grŵp cleient.

Mae Gwynedd yn dal i gyfweid defnyddwyr gwasanaeth ac mae eu hadborth yn cael ei ddefnyddio i ddylanwadu ar, a newid gwasanaethau yng Ngwynedd. Mae newidiadau bach sydd wedi cael dylanwad mawr yn cynnwys gwella mynediad i’r rhyngwyd mewn prosiect tŷ a rennir; mynediad gydag ‘allwedd ffob’ mewn prosiect arall, a rhifau rhadffôn ar gyfer gwasanaethau y tu allan i oriau swyddfa arferol. Mae defnyddwyr gwasanaeth yng Ngwynedd hefyd wedi cynhyrchu cylchlythyr Nadolig y sir ac mae llawlyfrau a Phecynnau Symud Ymlaen wedi eu cynhyrchu ar gyfer prosiectau.

Mae Conwy yn dal i ddefnyddio data o’r ffurflenni Deilliannau, Llwybrau a Monitro Perfformiad er mwyn hysbysu penderfyniadau am brosiectau ac yn dal i ofyn am adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth drwy’r broses adolygu a chyfarfodydd adolygu. Mae hyn yn debyg iawn i’r prosesau yn Wrecsam lle mae defnyddwyr gwasanaeth yn rhan o adolygiadau cynllunio gwasanaeth ar bob cam, gan gynnwys digwyddiadau ymgynghori, a chyfweliadau wyneb yn wyneb.

Mae Sir Ddinbych wedi sefydlu Bwrdd Ymgynghorol Profiad Byw sy'n cyfarfod bob 4-6 wythnos. Mae'r Bwrdd hwn wedi'i gysylltu'n agos â Grŵp Cynllunio er Atal Digartrefedd Sir Ddinbych, gan sicrhau bod pobl sydd wedi bod drwy'r fath brofiadau euhunain yn cael llais cryf ac ystyrlon yn y broses o gynllunio ar gyfer atal digartrefedd.

Mae Sir Ddinbych hefyd yn defnyddio'r bwrdd i wella sgiliau, meithrin hyder a sicrhau eu bod yn cyd-ddylunio a chyd-gynhyrchu mentrau / cynlluniau y mae Atal Digartrefedd Sir Ddinbych yn canolbwyntio arnynt.

Mae Sir y Fflint yn parhau i ariannu ODEL Involve, sef prosiect ymgysylltiad defnyddwyr gwasanaeth Sir y Fflint. Mae cylch gorchwyl ODEL Involve yn cynnwys cwblhau adborth defnyddwyr fel rhan hollgynhwysfawr o adolygiadau. Mae ODEL Involve wedi rhoi cyflwyniad i'r PCRh a chytunwyd y byddant, pan fydd gennym brosiect wedi'i gomisiynu'n rhanbarthol i weithio arno, yn rhan o'r broses honno er mwyn cynnwys llais defnyddwyr gwasanaeth.

Bydd PCRh mis Hydref 2019 yn derbyn y dadansoddiad nesaf o ddata o'r holiadur ar-lein

Datblygu'r Gwasanaeth

Sut mae penderfyniadau wedi cael eu siapio gan y cynllun gwariant, y dadansoddiad o anghenion, deilliannau a ffynhonnellau eraill o ddata? Pa newidiadau sydd wedi deillio o hyn?

Mae timau Cefnogi Pobl ar draws Gogledd Cymru yn gwneud eu penderfyniadau comisiynu i raddau helaeth yn seiliedig ar gasgliadau adolygiadau gwasanaeth a thrwy drafodaethau strategol o fewn yr awdurdod lleol a gyda phartneriaid allanol allweddol mewn meysydd perthnasol megis iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a'r trydydd sector. Dros y deuddeg mis diwethag mae'r PCRh wedi dylanwadu ar newid mawr ar draws Gogledd Cymru gan sicrhau bod Swyddog Ailsefydlu Carcharor ym mhob awdurdod lleol. Mae i'r swydd hon fanteision aruthron i bob sy'n gadael y carchar, fel y dywedodd Ynys Môn:



“Mae carcharorion wedi dweud bod cael gwybod am y penderfyniad ynglŷn â'u hasesiad digartrefedd cyn dyddiad eu rhyddhau wedi lleddfu eu pryderon ynghylch cael eu rhyddhau oherwydd eu bod yn cael amser i brosesu'r wybodaeth a chwilio'n rhagweithiol am opsiynau amgen neu fyrdymor os oes angen. Mae cyfarfod troseddwr cyn eu rhyddhau hefyd wedi profi'n hollbwysig o ran ymgysylltiad ar ôl rhyddhau. Mae'r Swyddog Ailsefydlu Carcharorion hefyd wedi gweithio'n agos â Swyddog Cyswllt Landlordiaid Preifat y Gwasanaethau Tai i feithrin perthnasoedd cryf gyda landlordiaid lleol ac mae ef/hi felly yn gwybod am y llefydd gwag cyfredol. Mae troseddwr yn aml yn ei chael yn anodd cael at a chadw llety addas oherwydd eu hanes o droseddu, cyfyngiadau trwyddedu a'u hymddygiad. Ar hyn o bryd mae gennym sawl landlord a fydd yn ystyried troseddwr ar gyfer eu llety o wybod fod y SAC yn darparu cymorth ychwanegol”.

Nid edrychodd y PCRh ar unrhyw ddata newydd dros y 12 mis diwethaf gan nad oedd disgwyl i'r Pwyllgor wneud dim ond rhoi diweddariadau ar feysydd blaenoriaeth y Cynllun Strategol Rhanbarthol ar gyfer 2019, yn bennaf oherwydd bod y newidiadau i'r grant yn awr yn dod o dan y Grant Cymorth Tai ac y disgwylir yr arweiniad newydd ar gyfer gwaith rhanbarthol gan Lywodraeth Cymru ... **Serch hynny mae gwaith wedi ei gomisiynu o hyd**, a blaenoriaethau wedi eu cwblhau megis y Swyddogion Ailsefydlu Carcharorion, y gwasanaeth IDVA a gomisiynir yn rhanbarthol, arian Gwella Diogelwch gyda Bwrdd VAWDASV (a fydd yn dechrau yn yr hydref 2019) a'r ymrwymiad rhanbarthol gan bob awdurdod i ddarparu'r fod yn sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn ymwybodol o'r Holiadur Ar-lein ar gyfer rhoi eu hadborth. Mae awdurdodau lleol wedi parhau i sicrhau y caiff penderfyniadau eu siapio gan gynllun gwariant, deilliannau a ffynonellau eraill o ddata.

Yn Ynys Môn caiff yr holl wasanaethau eu comisiynu'n strategol drwy ymdriniaeth a arweinir gan anghenion. Mae Ynys Môn wedi gweld symudiad arwyddocaol dros y flwyddyn ddiwethaf, o wasanaeth a oedd yn aml yn cynorthwyo â darpariaeth gofal i hyrwyddo byw yn annibynnol ar draws amrywiaeth o wasanaethau hirdymor megis anabledau dysgu a phobl hyn ac mae hyn wedi arwain at newid yn y blaenoriaethau. Gyda'r blaenoriaethau yn rhoi pwyslais clir ar atal digartrefedd, mae Ynys Môn wedi gweld y canlynol yn datblygu:

Darpariaeth Tai yn Gyntaf ar gyfer pobl ag anghenion iechyd meddwl neu sy'n ddigartref ar y stryd	Dau hostel ar gyfer pobl ifanc 16-24 oed sydd ag anghenion cymhleth	Cymorth fel bo angen ar gyfer pobl sy'n dal yn fregus ar ôl dwy flynedd o gefnogaeth barhaus cysylltiedig â thai
Allgymorth ar gyfer hyd at 40 o bobl sy'n cyflwyno eu hunain i opsiynau tai lle mae dyletswydd i gynorthwyo	Gwasanaeth ar gyfer pobl hyn sydd yn awr yn caniatáu i bobl gael cymorth dros gyfnodau byr i'w hatal rhag mynd yn ddigartref neu rhag gorfod cael cymorth mwy sefydliadol	Mae'r SPOA - Pwynt Mynediad Sengl Cefnogi Pobl wedi helpu i leihau bylchau mewn angenion am wasanaeth a llety fel ei gilydd.

Yng Ngwynedd, mae penderfyniadau comisiynu wedi parhau i gael eu siapio a'u hysbysu drwy gyfuniad o wybodaeth monitro perfformiad ac adolygiadau blynyddol a strategol a arweiniodd at benderfyniad i ehangu'r prosiect anghenion cymhleth yn Ne Gwynedd a hefyd at ailfodelu gwasanaethau i gwrdd ag anghenion newidiol pobl ifanc, ac at benderfyniad i ymestyn rhai prosiectau tymor byr am flwyddyn arall.

Mae Sir Ddinbych wedi parhau i edrych ar ddata am atgyfeiriadau am gymorth tai a gasglwyd drwy'r Cynllun Braenaru Atal Digartrefedd ac wedi blaenoriaethu atgyfeiriadau defnyddwyr gwasanaeth sydd mewn llety brys a dros dro er mwyn iddynt gael eu cefnogi mewn llety mwy addas cyn gynted a phosibl.

Mae Sir Ddinbych hefyd wedi croesawu'r ymdriniaeth Amgylchedd a Hysbysir yn Seicolegol (PIE). Cafodd yr hyfforddiant a roddodd Cymorth Cymru yng Ngogledd Cymru yn ystod y gaeaf 2018 groeso mawr gyda phresenoldeb da o blith yr awdurdodau a darparwyr. Mae Sir Ddinbych wedi sefydlu cyfarfodydd amlasiantaeth rheolaidd ar gyfer darparwyr tai ac wedi gwneud hynny er mwyn sicrhau bod dinasyddion yn manteisio o hynny.

Yn Wrecsam, er mwyn hwyluso darpariaeth llety â chymorth mewn ymateb i argyfyngau megis tywydd garw, mae cymal yn awr wedi'i gynnwys ym manyleb gwasanaeth yr holl gontractau Cefnogi Pobl newydd sy'n gofyn bod y darparwr yn gweithio gyda'r Cyngor ac asiantaethau eraill i ddiwallu anghenion y rhai hynny a effeithir. Yn ddiweddar mae un o ddarparwyr Wrecsam, mewn ymgynghoriad â'r tim Cefnogi Pobl, wedi aildrefnu rhan o'u gwasanaeth er mwyn darparu llety hostel penodedig ar gyfer pobl sy'n dod o'r carchar a chyplau digartref, a gwely argyfwng ar gyfer oedolion bregus, i gyd mewn ymateb i angen yn lleol.

Pa waith Rhanbarthol ac Is ranbarthol (ar gyfer PCRh gyda mwy nag un awdurdod lleol) a gomisiynir a sut y mae gwasanaethau wedi gwella ers yr Adroddiad Adolygu Blynyddol diwethaf?

Yn y PCRh mae Cyngor Conwy yn dal i fonitro deilliannau ar ran y chwe awdurdod. Ers 2018 mae Cyngor Conwy'n cynnal Holiadur Ar-lein Gogledd Cymru ar gyfer defnyddwyr/cyn ddefnyddwyr y gwasanaeth Cefnogi Pobl. Mae'r PCRh wedi gweithio gyda Bwrdd VAWDASV i gyd-gomisiynu'r IDVA a Gwella Diogelwch, mae tendro am y gwasanaeth rhanbarthol wedi cychwyn a gobeithir y bydd y wedi'i sefydlu erbyn Ebrill 2019.

Yn Is- grŵp y PCRh mae argymhellion wedi'u gwneud i gomisiynu dadansoddiad o fanteision cost llawn y rhaglen Cefnogi Pobl ar sail ranbarthol; nid yw hwn wedi'i dendro'n ffurfiol eto.

Mae awdurdodau lleol sydd â chontractau ar y cyd yn cynnwys:

- Mae gan Sir y Fflint, Sir Ddinbych a Chonwy gontract ar y cyd ar gyfer Night Stop / Llety â Chymorth
- Mae Conwy a Sir Ddinbych yn dal i gyd-gomisiynu'r prosiect 'Doorstop'
- Mae Sir Ddinbych a Sir y Fflint yn dal i gyd-gomisiynu cefnogaeth Keyring
- Mae Sir Ddinbych a Sir y Fflint yn dal i gyd-gomisiynu Llety Atebion Lleol
- Mae Sir y Fflint a Wrecsam yn dal i gyd-gomisiynu cefnogaeth camdriniaeth ddomestig Asterhope

Mae'r PCRh hefyd yn cael diweddariadau rheolaidd gan brosiect peilot ar y cyd Tai yn Gyntaf Conwy a Sir Ddinbych. Mae hon yn eitem sefydlog ar agenda cyfarfodydd y PCRh.

Prosiect Tai yn Gyntaf Conwy a Sir Ddinbych

Mae Cynghorau Conwy a Sir Ddinbych wedi cyd-gomisiynu Imogen Blood and Associates (IBA) gydag arian Grant Atal Digartrefedd Trosiannol Llywodraeth Cymru, i ddechrau datblygu Prosiect Tai yn Gyntaf integredig ar draws eu rhanbarthau. Datblygwyd astudiaeth dichonoldeb i edrych ar faterion megis pa mor effeithiol fyddai Tai yn Gyntaf i Sir Ddinbych a Chonwy.

Yn ystod 2018 sefydlwyd bwrdd prosiect ar y cyd â phartneriaid allweddol i hwyluso darpariaeth ac er mwyn darparu strwythur llywodraethu ar gyfer y prosiect. Roedd y bwrdd yn cyfarfod ar sail chwarterol er mwyn cael diweddariadau ar ddarpariaeth a cherrig milltir y prosiect.

Mae Rheolwr y Tîm Tai yn Gyntaf wedi'i recriwtio ynghyd a thîm o staff cefnogi gyda'r nod o fod â'r tîm cyfan yn ei le erbyn mis Gorffennaf 2019 ac yn barod i weithio gyda chyfranogwyr yn ystod yr haf.

Aeth Sir Ddinbych a Chonwy ati i sefydlu'r prosiect hwn mewn modd pwylllog gan gomisiynu astudiaeth dichonoldeb a defnyddio gwahanol dulliau recriwtio. Mae model Conwy a Sir Ddinbych yn cael ei ystyried yn arfer da a gofynnwyd iddynt gymryd rhan mewn cyflwyniad yn y gynhadledd Tai yn Gyntaf yng Nghaerdydd ym mis Gorffennaf 2019.

Bydd y PCRh yn parhau i dderbyn diweddariadau.

Sut allwch chi ddangos bod ymyrraeth gynharach a dull mwy ataliol o ymdrin â digartrefedd yn cael eu darparu? Sut y mae hyn yn cael sylw ar sail ranbarthol?

Bydd y cynigion yn deillio o ymchwil y PCRh i bobl sy'n gadael y carchar yn sicrhau bod y ddarpariaeth Cefnogi Pobl yn cael ei threfnu mewn modd sy'n cwrdd â gofynion Deddf Tai (Cymru) 2014 a bydd ymyrraeth gynnar yn rhwystro'r angen i ddefnyddio llety dros dro ar gyfer y rhai hynny a fyddai fel arall yn ddigartref ar ôl eu rhyddhad o'r carchar. Mae'r adolygiad hwn eisoes wedi amlinellu manteision y swyddi Swyddogion Ailsefydlu Carcharorion (SAC) ac ar ôl cyfarfod is-grŵp y PCRh gyda'r swyddogion byddwn yn gwybod pa ystadegau y gellir eu casglu i ddangos yr agenda ataliol.

Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yng Nghymru wedi sefydlu llwybr ar gyfer pobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref neu'n ddigartref ar y stryd. Mae'r llwybrau hyn yn sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn yr ymyrraeth gynharaf bosibl ac amrywiaeth o gefnogaeth uniongyrchol dargedig. Mae ymyrraeth allgymorth yn rhan o lwybr Ynys Môn ac yn cynnwys gwaith cyn-denantiaeth os yn briodol. Mae hyn wedi arwain at gryn welliant o ran sicrhau y caiff pobl fynediad cyflymach at fudd-dal tai; gwell perthnauedd rhwng tenantiaid a landlordiaid ac wedi lliniaru'r perygl y bydd landlordiaid yn troi pobl a theuluoedd bregus allan am beidio â thalu eu rhent.

Yn Sir Ddinbych cafodd y timau tai eu hailstrwythuro a chyflwynwyd y Tîm Atal Digartrefedd newydd sy'n gweithio tuag at atal digartrefedd a rhwystro materion tai rhag cyrraedd pwynt argyfwng. Mae'r swyddi newydd yn Sir Ddinbych wedi eu hystyngtan tan 2020 gan gynnwys y Swyddog Brysbennu

Digartrefedd a'r Cynorthwywyr Atal Digartrefedd sy'n gyfrifol am wneud tasgau ataliol. Mae'r swyddi hyn wedi bod yn werthfawr dros ben i'r tîm o ran lleihau llwythi achosion y Swyddogion Atal Digartrefedd.

Mae Sir Ddinbych hefyd wedi newid eu hamseroedd galw heibio er mwyn sicrhau ymdriniaeth ataliol. Newidiwyd amseroedd galw heibio'r Tîm Atal Digartrefedd er mwyn sicrhau bod dinasyddion sydd ddim yn 'ddigartref heno' yn cael eu bwcio i mewn am apwyntiadau gyda'r swyddog brysbennu er mwyn sicrhau gwaith mwy cynlluniedig. Caiff pobl sy'n 'ddigartref heno' eu gweld rhwng 1pm a 4pm dydd Llun-Gwener gan y Swyddog Brysbennu ac yna gan Swyddog Atal Digartrefedd.

Mae Sir Ddinbych wedi ymestyn eu cyllid ar gyfer llywiwr cymunedol atal digartrefedd sy'n gyfrifol am ganolbwyntio ar ymyrraeth gynnar mewn materion yn ymwneud â Chredyd Cynhwysol. Derbyniwyd 683 atgyfeiriad rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2018.

Mae Llwybr Cadarnhaol Pobl Ifanc Sir Ddinbych wedi'i ymestyn tan 2020 ac yn dal i weithio'n agos â swyddogion atal digartrefedd a'r llwybr atal. Yng Nghonwy mae'r Swyddog Atal Digartrefedd Pobl Ifanc wedi llwyddo i rwystro pobl ifanc rhag gorfod mynd i lety brys, wedi eu helpu i aros yn eu llety presennol neu i symud i lety mwy priodol.

Mae Tîm Ymyrraeth Tai Sir y Fflint wedi'i ddatblygu i rwystro cynnydd mewn ôl ddyledion rhent sy'n arwain at weithdrefnau meddiannu a throi allan. Prosiect peilot yw hwn i weld os all yr ymyrraeth gynnar hon leihau / atal achosion o feddiannu a throi allan.

Mae Sir y Fflint yn parhau i rannol noddî Porth Cyngor Lleol Sir y Fflit (FLAG) ar y cyd a CAB. Mae Flag yn derbyn atgyfeiriadau gan amrywiaeth eang o sefydliadau statudol ac anstatudol. Mae'r ymholiadau a geir amlaf yn ymwneud â thai, budd-dal lles a dyled. Mae Sir y Fflint hefyd wedi comisiynu Gweithiwr Allgymorth fel prosiect peilot i gyd-fynd a'r ddarpariaeth gwely brys

Fel yn Sir Ddinbych, mae ailstrwythuro hefyd yn digwydd yn Wrecsam er mwyn dwyn ynghyd y timau Opsiynau Tai a Dyraniadau Tai o dan reolaeth y swyddog arweiniol Cymorth Tai a Gosod Lleol. Bydd y tîm yn parhau i weithio'n agos ar fentrau sy'n atal digartrefedd ac yn lleihau achosion o ddigartrefedd dro ar ôl tro dwy alluogi pobl i gynnal eu llety unwaith y maent wedi cael eu cartrefu.

Bydd cynnwys y tîm Dyraniadau gyda Thîm Opsiynau Tai Wrecsam yn helpu i sicrhau y caiff pobl eu hailgartrefu'n briodol gan atal digartrefedd yn y dyfodol o ganlyniad i fethiant tenantiaethau.

Bydd y PCRh yn parhau i weithio tuag at fwy o ymyrraeth gynnar ac ymdriniaeth ataliol drwy ddatblygiad y Grant Cymorth Tai a'r blaenoriaethau a amlinellir yn y Cynllun Strategol Rhanbarthol.

Pa gysylltiadau sydd gan PRCh gyda'r Gwasanaetha Cymdeithasol a'r Gwasanaethau Iechyd yn y rhanbarth? A gomisiynwyd unrhyw wasanaethau ar y cyd neu a gyfunwyd unrhyw adnoddau? Os do, rhowch fanylion y prosiect(au).

Yn ystod esblygiad y Grant Cymorth Tai a'r digwyddiadau ymgysylltu y mae aelodau'r PCRh wedi eu mynychu, roedd y cynnig drafft ar gyfer gwaith rhanbarthol yn nodi y byddai'r PCRh yn mynd yn is-grŵp i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gan drosglwyddo gwybodaeth i'r Cynrychilwyr Tai ar y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Ym mis medi 2018 mynychodd Cadeirydd y PCRh gyfarfod Tîm

Cydweithredol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gan roi gwybod i'r rhai oedd yn bresennol pwy yw Cefnogi Pobl, pwy yw'r PCRh a beth yw ei agenda. Yn ddiweddarach rhannwyd y Cynllun Strategol rhanbarthol diweddaredig gyda'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Erbyn hyn mae gan y PCRh gynrychiolydd Iechyd Cyhoeddus, Iechyd a Iechyd Meddwl. Mae'r Cydlynnydd Datblygu Rhanbarthol yn mynychu cyfarfodydd Timau Gwybodaeth Leol BIPBC ar draws Gogledd Cymru. Mae'r Cydlynnydd Datblygiad Rhanbarthol ar hyn o bryd yn gweithio gyda'r cynrychiolydd Iechyd Meddwl i fapio darpariaeth ar gyfer agendâu'r Timau Gwybodaeth Leol ar draws Gogledd Cymru.

Ar lefel Awdurdod Lleol bydd grwpiau cynllunio ar draws y rhanbarth yn cynnwys cynrychiolydd o Iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae Iechyd, Iechyd Cyhoeddus a chynrychiolydd cyfetholedig Iechyd Meddwl hefyd wedi eu cynrychioli ar ein CPRh.

Mae Ynys Môn wedi cyfuno eu hadnoddau ar gyfer Anableddau Dysgu ac Iechyd Meddwl. Mae'r gwasanaeth peripatetig ar gyfer pobl hŷn yn ddarpariaeth dargedig ar gyfer tua 180 o bobl 55 oed a throsodd. Mae'r gwasanaeth hwn yn Ynys Môn yn gweithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Oedolion. Mae Ynys Môn wedi datblygu llwybr tai ar gyfer pobl ag anghenion Iechyd meddwl ar y cyd â phartneriaid Iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae Ynys Môn hefyd wedi cymryd camau i ailfodelu darpariaeth ym maes camdriniaeth ddomestig ar y cyd â'r Gwasanaethau Plant, Oedolion, Iechyd, Heddlu Gogledd Cymru a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol..

Mae gan Gwynedd gyd-gontract gyda'r gwasanaethau oedolion ar gyfer Anableddau Dysgu. Cafodd prosiect Anghenion Cymhleth Gwynedd, sydd wedi cael ei ymestyn, ei ddatblygu gydag Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Digartrefedd. Dyfarnwyd y contract i sefydliad allanol, Gorwel, a bydd Gorwel yn gweithio'n agos â'r Tim Digartrefedd a'r Tim Iechyd Meddwl yn Ysbyty Gwynedd. Mae'r prosiect erbyn hyn yn cael ei ledaenu i Dde Gwynedd.

Mae tendro ar y cyd hefyd yn digwydd yng Ngwynedd rhwng Cefnogi Pobl a'r Gwasanaethau Oedolion ar gyfer darpariaeth gwasanaethau camdriniaeth ddomestig. Mae Conwy yn dal i ariannu prosiectau ar y cyd â'r gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer cleientiaid ag Anableddau Dysgu, Iechyd Meddwl a Phobl Ifanc.

Mae Sir y Fflint yn ariannu gweithiwr cefnogi o fewn Tim Gwasanaethau Ieuenctid Integredig Gwasanaethau Cymdeithasol Plant sy'n gweithio gyda phobl ifanc 16/17 oed. Mae Wrecsam yn cyfrannu cyllid i Gynllun Gofal Ychwanegol Gofal Cymdeithasol Oedolion ar gyfer elfennau cymorth perthnasol i dai. Mae'r swyddog Porth Tai Wrecsam yn mynychu cyfarfodydd panel Gofal Ychwanegol er mwyn sicrhau y caiff anghenion cymorth tenantiaid newydd eu diwallu wrth iddyn nhw symud i mewn.

Mae'r PCRh yn parhau i fonitro ei aelodaeth, mae Iechyd Meddwl yn aelod cyfetholedig o'r PCRh, rhywbeth sydd wedi profi i fod yn hollbwysig i'r Pwyllgor. Mae'r cynrychiolydd Iechyd Meddwl yn mynychu Grwpiau Cynllunio pob awdurdod ac yn rhoi diweddariadau i'r PCRh ar unrhyw fentrau newydd y mae BIPBC yn gweithio arnynt sy'n cysylltu ag agenda'r HSG a'r Pwyllgor.

Pa gysylltiadau a wnaed gyda grwpiau strategol/cynllunio rhanbarthol a pha waith cyd-gomisiynu a wnaed gyda phartheriaid/rhaglenni allweddol eraill?

Mae'r PCRh wedid dablygu perthynas waith dda gyda'r Bwrdd Trais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV). Mae Cadeirydd y PCRh yn mynychu'r bwrdd hwn ac mae'r Cydlynnydd Camdriniaeth Domestig Rhanbarthol yn mynychu is-grŵp y PCRh.

Mae meysydd blaenoriaeth y Cynllun Strategol Rhanbarthol yn eitem sefydlog ar agenda'r PCRh a'r Is-Grŵp a chaiff diweddariadau o VAWDASV eu rhannu yn y ddau gyfarfod. Drwy'r cysylltiadau yr ydym wedi eu datblygu gyda Bwrdd VAWDASV bydd cyd-gomisiynu'r Gwasanaeth IDVA Rhanbarthol wedi ei sefydlu erbyn Ebrill 2020. Cytunwyd ar gyfraniad rhanbarthol tuag at y gwasanaethau IDVA a Gwella Diogelwch presennol ar gyfer 2019-20.

Mae ein Cynllun Strategol Rhanbarthol yn dal i gael ei gyflwyno i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol bob blwyddyn. Yn dilyn y cynigion ar yr arweiniad drafft a gyflwynwyd yn y digwyddiad Grant Cymorth Tai ym mis Mehefin 2019, gwnaed cynnig bod y PCRh yn dod yn is-grŵp o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gyda'r swyddogaeth o gefnogi'r cynrychiolwyr Tai ar y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae Cadeirydd y PCRh wedi bod mewn cyswllt â'r cynrychiolwyr tai i gael eu hadborth ar y cynnig hwn a chafodd hefyd ei drafod yng nghyfarfod mis Gorffennaf o'r PCRh er mwyn cael sylwadau'r holl aelodau. Bydd yr holl sylwadau a gafwyd yn cael e bwydo i mewn i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar yr arweiniad y bwriedir ei gyhoeddi ym mis Awst 2019.

Mae cysylltiadau hefyd wedi eu gwneud gyda phartneriaid allweddol eraill ar y PCRh. Fel y nodwyd eisoes mae'r holl Swyddogion Ailsefydlu Carcharorion wedi eu recriwtio ac yn eu swyddi. Mae'r weithred hon a gwblhawyd gan y PCRh wedi ei rhannu mewn cyfarfodydd amlasiantaeth/fforymau ac mae Is Grŵp y PCRh wedi gahodd y swyddog Llwybr Prawf Cenedlaethol i'r cyfarfod nesaf o'r grŵp er mwyn sicrhau bod yr holl bartneriaid allweddol yn cael eu cynnwys wrth drafod pobl sy'n dod o'r carchar a'r gwasanaeth y byddant yn eu derbyn ar ôl eu rhyddhau. Bydd cynrychiolydd y Cwmni Adferiad Cymunedol ar y PCRh hefyd yn mynychu'r cyfarfod hwn.

Fel y soniwyd eisoes, mae BIPBC wedi sefydlu tri Tîm Gwethredu Lleol ar draws Gogledd Cymru – yn y gorllewin, y dwyrain a'r canol. Caiff y timau eu harwain gan lechyd ac mae eu haelodaeth yn amlasiantaeth gan gynnwys y trydydd sector, yr heddlu, y gwasanaeth tân, y gwasanaethau cymdeithasol a thai. Mae'r Cydlynnydd Datblygu Rhanbarthol hefyd yn mynychu pob cyfarfod o'r TGLI i roi diweddariadau ac er mwyn adrodd yn ôl i'r PCRh a'r Is-grŵp.

Mae'r Cydlynnydd Datblygu Rhanbarthol wedi cyfarfod cydlynwyr pob un o'r Byrddau Gwasanaeth Lleol yn ogystal â gyda chydlynrwyf VAWDASV a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'r cyfarfodydd hyn a chyfnewid a thrafod cynlluniau strategol rhanbarthol a chynlluniau gwaith pob bwrdd wedi caniatáu i'r ddau fwrdd unrhyw flaenoriaetau sy'n gorgyffwrdd ac yn fwy pwysig i dynnu sylw at agena'r PCRh a rhoi gwybod i fyrddau eraill ar draws Gogledd Cymru yr hyn yr ydym wedi bod yn gweithio arno.

Mae cyflwyniad y Grant Cymorth Tai (GCT) a'r Grant Plant a Chymunedau (GPCh) yn 2018 wedi cyfleu neges glir o gyfliniad rhwng y ddau grant ac mae'r awdurdodau lleol wedi arhau i weithio ar y neges hon. Fel cynllun Braenaru mae Conwy wedi recriwtio Rheolwr Cyllid Hyblyg ac yng Nghonwy hefyd sefydlwyd grŵp darpariaeth i edrych ar y gwariant ar draws pob un o'r deng grant ac mae gwybodaeth fapio gan ddarparwyr ar y deng grant wedi ei chasglu i edrych ar unrhyw ddyblygu

posibl. Yn dilyn y darn hwn o waith mae Conwy wedi sefydlu grŵp Monitro a Chyllid lle bydd y wybodaeth mapio ac ariannol yn cael eu hedrych arnynt. Bydd y Grŵp Darparu yn goruchwyllo gwaith y Grŵp Monitro a Chyllid ac yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd Cyllid Hyblyg.

I gloi, mae'r 12 mis diwethaf wedi bod yn rhai eithaf anodd o ran datblygu perthnasau strategol ymhellach gan nad yw dyfodol y PCRh yn glir. Serch hynny mae'r PCRh wedi parhau i godi proffil y rhaglen Cefnogi Pobl ble bynnag bosib. Mae gan y PCRh bapurau wedi'u rhannu a ddatblygwyd yn eang ar draws Gogledd Cymru gyda'r gwahanol lwyfannau strategol yn ogystal â'r fforymau darparu Cefnogi Pobl yn gyffredinol.

Mae'r PCRh wedi diweddarau a rhannu 'Straeon ein Pobl' yn ystod 2018. Defnyddir y ddogfen hon yn y rhan fwyaf o gyflwyniadau i'r PCRh gan ei bod yn dangos manteision y rhaglen a'i agenda ataliol i uwchgyfeirio achosion i wasanaethau eraill. Caiff astudiaeth achos ban bob awdurdod lleol hefyd ei gynnwys. Mae'r dadansoddiad o'r holiadur defnyddwyr gwasanaeth hefyd wedi ei ddsbarthu'n eang.

Mae pob aelod newydd o'r PCRh yn dal i gael cwrs cyflwyno, fodd bynnag dros y 12 mis diwethaf mae ansicrwydd wedi bod o ran dweud wrth aelodau newydd beth fydd dyfodol y Pwyllgor, ac wrth gael trafodaethau strategol gydag aelodau byrddau rhanbarthol eraill, mae methu dweud a fydd angen i ni gyflwyno cynllun rhanbarthol y flwyddyn nesaf hefyd wedi bod yn rhwystr o ran cydweithio ar flaenoriaethau'r dyfodol.

Grant Cymorth Tai

Sut mae'r PCRh wedi hysbysu/cyfrannu at yr ymgysylltiad rhanddeiliad ar gyfer datblygu'r Grant Cymorth Tai?

Mae'r PCRh wedi bod yn rhagweithiol o ran sicrhau y caiff yr holl negeseuon a dderbynnir am y GCT eu rhannu gyda'r holl aelodau a gyda rhwydweithiau ehangach ac unrhyw ymgynghoriadau am y Grant Cymorth Tai y mae'r PCRh yn rhan ohonynt. Yn ystod y deuddeng mis diwethaf mae'r GCT wedi bod yn uchel ar agenda pob cyfarfod ac yng nghyfarfod mis Medi 2018 o'r PCRh, cyflwynodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wybodaeth am y gwaith maen nhw wedi ei wneud hyd yma fel Braenarydd. Cyflwynodd y Cydlynnydd Datblygu Rhanbarthol bapur i'r PCRh ar y cymariaethau o'r arweiniad er mwyn rhoi gwybodaeth bellach i'r Pwyllgor.

Yng nghyfarfod mis Tachwedd 2018 y PCRh, roedd Paul Webb o Lywodraeth Cymru yn bresennol a rhoddodd ddiweddariad ar y Grant Cymorth Tai. Roedd y PCRh hwn yn amserol gan ei fod yn dilyn cyhoeddiad y Gweinidogion am yr ymdriniaeth dau grant ym mis Hydref. Trafodwyd Diwrnod Datblygu'r Bwrdd Ymgynghorol Cefnogi Pobl Cenedlaethol yn ystod y cyfarfod hwn hefyd ac mae'r Pwyllgor wedi cael cyfle i fwydo i mewn i hyn.

Nid oedd modd i Lywodraeth Cymru fynychu cyfarfod mis Ionawr y PCRh ond er hynny cyflwynwyd diweddariad ar y Cynllun Strategol Rhanbarthol a oedd yn dweud y byddai'r PCRh yn canolbwyntio ar esblygiad y Grant Cymorth Tai. Yn y cyfarfod hwn hefyd gofynnwyd i'r aelodau fynychu digwyddiad ymgysylltu Gogledd Cymru ar y Grant Cymorth Tai a fyddai'n cael ei gynnal ym mis Chwefror.

Roedd presenoldeb yn y digwyddiad ymgysylltu yn dda gyda chynrychiolwyr o bob rhan o Ogledd Cymru wedi mynychu. Roedd y Cydlynnydd Datblygu Rhanbarthol hefyd yn bresennol a rhannwyd y negeseuon o'r diwrnod gyda'r aelodau ac yn ehangach.

Yng nghyfarfod mis Mawrth 2019, roedd Llywodraeth Cymru yn bresennol. Mynychodd Paul Webb i roi diweddariad ar y Grant Cymorth Tai, rhoddodd Karl Thomas ddiweddariad ar Ailddosbarthu a chawyd diweddariad gan Liz Cook ar yr agenda Anableddau Dysgu. Roedd Liz Cook hefyd wedi mynychu cyfarfod Is Grŵp y PCRh ym mis Chwefror i drafod y posibilrwydd y gallai arian Anableddau Dysgu fynd ar draws y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r Cydlynnydd Datblygu Rhanbarthol a'r Swyddogion Cefnogi Pobl arweiniol wedi diweddarau gwaith 2014 y PCRh ar y meini prawf cymhwysedd ar gyfer Anableddau Dysgu ac anfonwyd hwn at Liz Cook.

Roedd diweddariad Karl Thomas ar ailddosbarthu yn naturiol yn achosi pryder i'r PCRh. Trefnodd y PCRh gyfarfod ychwanegol ym mis Mawrth i ganolbwyntio yn llwyr ar ailddosbarthu gyda Karl Thomas a chafodd Karl wybodaeth uniongyrchol am ein pryderon ni am yr agenda hwn. Wedi hynny ysgrifennodd y PCRh lythyr ar hyn sydd wedi mynd, gyda'r cyngor a gafwyd gan Lywodraeth Cymru, at y Gweinidog.

Yn y cyfarfod PCRh ym mis Mawrth cytunodd yr aelodau i wahodd swyddogion arweiniol digartrefedd pob awdurdod er mwyn sicrhau bod pawb cysylltiedig a'r Grant Tai wedi eu cynnwys. Ar hyn o bryd nid oes cynrychiolaeth yn y PCRh dros grant gorfodaeth Rhentu Doeth Cymru. Bydd aelodaeth y PCRh yn dal i gael ei fonitro.

Mae'r holl negeseuon gan Grŵp Llywio'r Grant Cymorth Tai wedi eu rhannu gyda holl aelodau'r PCRh ac mae'r Cydlynwy Rhanbarthol wedi rhoi diweddariadau i bob aelodau yn dilyn y cyfarfodydd rhwydwaith ar gyfer Cydlynwyr Datblygu Rhanbarthol.

Er nad yn fater i adrodd arno yn y flwyddyn galendr hon, gwahoddwyd y PCRh hefyd i'r Digwyddiad Ymgysylltu yng Nghaerdydd ym mis Mehefin a fynchwyd gan bob awdurdod a darparwyr ar draws y ranbarth, eto gyda'r holl negeseuon yn cael eu hadrodd yn ôl yn brydlon i holl aelodau'r PCRh.

Mae timau Cefnogi Pobl awdurdodau lleol wedi cael, ac yn dal i gael cyfarfodydd mewnol i drafod newidiadau y grant newydd a sut i'w rheoli. Mae awdurdodau lleol yn dal i weithio'n rhagweithiol gyda' gilydd i alinio ffynonellau ariannu'r Grant Cymorth Tai a chynllunio ar gyfer comisiynu'r dyfodol.

I grynhoi, rhannwyd yr holl negeseuon am y Grant Cymorth Tai yn gyflym gyda holl aelodau'r PCRh. O ran cyfarfodydd eraill y mae'r Cydlynnydd Datblygu Rhanbarthol wedi eu mynychu lle trafodwyd y Grant Cymorth Tai, cafodd y trafodaethau hyn hefyd eu crynhoi a'u rhannu gyda'r holl aelodau. Mae aelodau'r PCRh wedi bod yn barod iawn i rannu unrhyw wybodaeth y maent wedi'i derbyn / darllen ynglŷn datblygiadau gyda'r Grant Cymorth Tai.

Gwerthusiad/Adborth Aelodau'r PCRh

Beth oedd gan Aelodau PCRh Gogledd Cymru i'w ddweud am y PCRh?



Beth y bydd angen ei symud ymlaen dros y flwyddyn i ddod?

- Y modd y mae'r PCRh yn ymateb i agenda ailddosbarthu Llywodraeth Cymru
- Adnabod cysylltiadau/cyfleoedd am fwy o waith ar y cyd rhanbarthol / is ranbarthol
- Cysylltu a gweithio gyda Strategaeth Digartrefedd Rhanbarthol Gogledd Cymru.
- Eglurder ar yr hyn y mae PCRh yn ei ofyn o lechyd Meddwl.
- Mae angen i'r PCRh ailddiffinio ei bwrpas fel y prif fwrdd strategol sy'n goruchwyllo ac yn craffu ar berfformiad a gwariant ar ôl cyflwyniad y Grant Cymorth Tai.
- Mwy o waith pendodol o ran alinio'r elfen GCT yn dilyn yr arweiniad newydd (pan ddaw)
- Mentrau penodol i'w hadrodd i'r PCRh (e.e

Canolfan Digartrefedd Bangor; Canolfan Gofal Cymunedol Sir y Fflint a Wreccsam – y ddau i'w lansio ym mis Ionawr 2020)

- Mwy o waith ar ddangos tystiolaeth o werth y gwasanaethau i ddefnyddwyr gwasanaeth bregus iawn
- Edrych ar sut y gallwn sicrhau mwy o sylw i/ymwybyddiaeth o'r Fforwm Darparwyr Rhanbarthol ar draws Gogledd Cymru.

Y PCRh i ddal ati i ddangos i'r Gweinidog yr effaith y bydd Ailddosbarthiad Cyllid yn ei gael os bydd yn mynd yn ei flaen. Cynghorwyr etholedig ar y PCRh i godi hyn gydag AC Lleol a rhaid i bob aelod fod yn flaenllaw mewn ymgyrchu ar yr agenda hwm.

Llywodraethu

Cadw Tŷ y PCRh

- A oes gan y PCRh Fomorandwm o Ddealltwriaeth cyfredol wedi'i lofnodi gan bob aelod? **NA – angen llofnod rhai aelodau newydd**
- A oes gan bob aelod o'r PCRh ffurflen Datganiad o Fudd cyfredol? **NA – yn disgwyl am rai gan aelodau newydd**
- Ydi'r PCRh wedi cyhoeddi ei Gynllun Gwariant Rhanbarthol a'i Gynlluniau Gwariant ar gyfer pob awdurdod lleol yn y rhanbarth? **YDI**
- Ydi'r PCRh wedi cyhoeddi ei Gynllun Strategol Rhanbarthol diweddaraf? **DO**
- Ydi'r PCRh wedi cyhoeddi Adroddiad Adolygu Blynyddol y Llynedd? **DO**
- Ydi'r PCRh wedi cyhoeddi cofnodion ei gyfarfodydd? **DO**

Beth sydd nesaf ar gyfer y PCRh?

Fel arfer bydd yr Adolygiad Blynyddol yn cloi gyda chrynodeb o'r hyn yr ydym wedi dechrau ei gasglu o'n gweithdai ar gyfer Cynllun Strategol Rhanbarthol y flwyddyn nesaf. Fodd bynnag fel y nodwyd mae'r PCRh yn aros ar hyn o bryd am arweiniad newydd ar gyfer y Grant Cymorth Tai a disgwylir y bydd Llywodraeth Cymru yn rhannu hwn ddiwedd mis Awst 2019. Cynigiodd Cyfarfod Ymgysylltu mis Medi ar y GCT bod y PCRh yn mynd yn is grŵp i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn hysbysu'r ddau gynrychiolydd tai ar y Bwrdd hwnnw. Nid ydym yn gwybod o hyd am weithrediad strategol y PCRh yn y dyfodol, ac yn ansicr a oes disgwyl i ni fod â Chynllun Strategol Rhanbarthol yn ei le, ac a fydd trefniadau llywodraethu megis yr adolygiad hwn yn parhau ac ati.

Fodd bynnag yn y cyfarfod diwethaf o'r PCRh roedd trafodaeth gadarnhaol am y Pwyllgor fel llwyfan ar gyfer symud y Strategaeth Digartrefedd Rhanbarthol yn ei blaen ac roedd dymuniad i hyn barhau. Mae gan y PCRh hefyd ei holiadur ar-lein felly bydd adborth defnyddwyr gwasanaethau yn parhau i fod yn allweddol dros y misoedd i ddod.

Bydd y PCRh yn parhau i sicrhau bod aelodau'n rhan o'r ymgynghoriad ar y Grant Cymorth Tai yn arbennig ym maes aildosbarthu a bydd yn parhau i rannu negeseuon yn eang ar draws rhwydweithiau Gogledd Cymru. Mae gan y PCRh ei feysydd blaenoriaeth strategol ei hun i'w cyflawni o hyd, fel y nodir yng nghynllun 2017-20, pob un ohonynt wedi'u hamlinellu yn yr adolygiad hwn a byddant yn dal i gael eu symud ymlaen drwodd at 2020.

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau am gynnwys yr adroddiad hwn, cysylltwch â'r Cydlynnydd Datblygiad Rhanbarthol:

Rachel Pierce-Jones

Rachel.pierce-jones3@conwy.gov.uk 01492 574234